

Amserlen

Penderfyniadau

Panel Trwyddedu (Tacsi)

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2021

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **2 Tachwedd 2021**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), David Fouweather, Tom Suller

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 11/21

Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

Penderfyniad

Gyrrwr AA

Bu'r Panel Trwyddedu yn ystyried adroddiad y Swyddog a chyflwyniad yr ymgeisydd yn ofalus a daeth y Panel i'r casgliad nad oedd yr ymgeisydd yn "Berson Addas a Phriodol". O'r herwydd, gwrthodwyd y cais am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat gyda Chyngor Dinas Casnewydd. Y rhesymau dros wrthod y cais oedd: Ystyriodd y Panel Trwyddedu ei Bolisi Trwyddedu, yn benodol Atodiad A o'r Polisi "Tacsi" sy'n ymwneud â pherthnasedd euogfarnau blaenorol. Mae Adran 10 Atodiad A yn nodi:

10. *Troseddau rhywiol ac anwedduster;*

Gan fod gyrrwyr trwyddedig yn aml yn cludo teithwyr unigol a rhai sy'n agored i niwed, bydd y Cyngor yn cymryd llinell gref mewn perthynas ag ymgeiswyr neu ddeiliaid trwydded presennol sydd ag euogfarnau am droseddau rhywiol. Bydd yr holl droseddau rhywiol ac anwedduster yn cael eu hystyried yn rhai difrifol. Bydd y Rheolwr Trwyddedu yn gwrthod trwydded i ymgeiswyr sydd ag euogfarnau am droseddau rhywiol neu anwedduster sy'n ymwneud â thrydydd parti. Mae troseddau o'r fath yn cynnwys: · Trais rhywiol, · Ymosodiad drwy dreiddio, · Troseddau sy'n ymwneud â phlant neu oedolion agored i niwed · Masnachu mewn pobl, cam-drin rhywiol yn erbyn plant a/neu oedolion agored i niwed a throseddau paratoi (fel y'u diffinnir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003), · Gwneud neu ddosbarthu deunydd anweddus, · Meddu ar ffotograffau anweddus

sy'n darlunio pornograffi plant. · Ymosodiad rhywiol, · Ymosodiad anwedus, · Camfanteisio ar buteindra, · Lithio (gyrru'n araf ar hyd palmant) · Dinoethi anwedus, · Unrhyw droseddau tebyg (gan gynnwys ceisio neu gynllwynio i droseddu) troseddau sy'n disodli'r uchod. O ran gyrwyr Hacni neu Hurio Preifat presennol, bydd eu trwydded a roddwyd iddynt gan eu Cyngor fel arfer yn cael ei ddirymu gan y Rheolwr Trwyddedu a byddai'r safon uchod yn berthnasol.

Ystyriodd y pwyllgor y camau lliniaru a ddarparwyd gan yr ymgeisydd bod y drosedd wedi digwydd pan oedd yn 15 oed, ond nodwyd hefyd bod yr ymgeisydd wedi methu â hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar adeg gwneud cais.

Trafododd y Pwyllgor Adran 13 o'i bolisi "Tacsi" sy'n nodi:

Y brif ystyriaeth i'r Awdurdod Trwyddedu yw sicrhau bod ei ddyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd yn cael ei chyflawni. Bwriedir i'r gyfundrefn drwyddedu, ymhlith pethau eraill, sicrhau cyn belled ag y bo modd, bod y rhai sydd wedi'u trwyddedu i yrru cerbydau yn bersonau addas i wneud hynny. Ar ôl ystyried a chymhwysu'r canllawiau priodol, dylid gofyn y cwestiwn canlynol: "... A fyddech chi'n caniatáu i'ch merch neu fab, wyres neu wŷr, priod, mam neu dad, neu unrhyw berson arall rydych chi'n gofalu amdano neu unrhyw berson rydych chi'n ei adnabod sy'n agored i niwed, fynd i mewn i gerbyd gyda'r person hwn yn unig?...

Daeth aelodau'r pwyllgor i'r casgliad, oherwydd natur ddifrifol iawn y drosedd er gwaetha'r ffaith iddi ddigwydd nifer o flynyddoedd yn ôl, nad ydynt yn hyderus bod yr ymgeisydd yn berson Addas a Phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat ac oherwydd hynny, gwrthododd y cais.

Gyrrwr AU

Cafodd y Pwyllgor Trwyddedu wybod gan Swyddogion Trwyddedu nad oedd y gyrrwr yn gallu mynychu'r pwyllgor, a'i fod wedi gofyn am i'r gwrandawriad gael ei gynnal fis nesaf. Penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r gwrandawriad.

Gyrrwr KM

Daeth y Panel Trwyddedu i'r casgliad na fyddai'r Ymgeisydd yn cael Trwydded Tacsi gyda Chyngor Dinas Casnewydd. Cyfeiriodd y Panel at Adran 8.6 o Bolisi'r Cyngor a daeth i'r casgliad nad oedd yr Ymgeisydd wedi cwrdd â'r prawf addas a phriodol i ddal Trwydded gyda CDC oherwydd ei rybudd / ymddygiad blaenorol.

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.

Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
